

Cynhaliaeth

Darlleniad 1: Salm 65

Darlleniad 2: Salm 104

Plygwn ger dy fron, O! Dduw ein Tad, i'th ganmol ac i'th glodfori di am y cyfan sydd wedi ein cynnal a'n cadw hyd yn awr.

Diolchwn i ti am yr amrywiol fendithion sydd wedi ein cynnal yn gorfforol ac yn ysbrydol. Ti, ein Tad, sy'n ein cynnal ni o ddydd i ddydd ac o nos i nos. Pobl yn byw, yn symud ac yn bod ynot ti ydym.

‘O! plygwn bawb ei lin
O flaen ein Brenin mawr;
Addolwn ef, ein dyled yw,
Rŷm arno'n byw bob awr.’

Ni fyddai'r un ohonom yn medru symud o gwmpas, ni fyddai'r un ohonom yn medru mynd a dod oni bai dy fod ti, O! Dduw, yn ein cynnal bob munud awr. Bob eiliad, bob munud, bob awr a phob dydd yr ydym yn dibynnu arnat ti.

‘Duw'r bendithion yw dy enw
Yn cyfrannu'n helaeth iawn.
Rôl cyfrannu yn y bore
Rhoddi eilwaith y prynhawn.’

‘Pob rhodd berffaith, pob rhodd ddaionus, oddi wrth
Dduw y mae.’

Cydnabyddwn yn agored ger dy fron mai ‘Ar dy drugareddau yr ydym oll yn byw’. Wrth inni sylweddoli ein dibyniaeth arnat ti, teimlwn hi'n ddyletswydd arnom i ddod i gyflwyno ein diolchgarwch i ti. Gwyddom, O! Dduw ein Tad, bod gennym anghenion corfforol, ac mai tydi yn unig sy'n darparu ar gyfer yr anghenion hynny. Fe wyddost ti, O! Arglwydd, beth yw ein hanghenion ni; fe wyddost ti beth yw galw mawr ein bywyd ni. Diolchwn i ti am gwrdd ag anghenion dy blant. Derbyn ein diolch

am ein bara beunyddiol. Wele ni ger dy fron yn dy gydnabod fel ein gwir gynhaliwr mewn bywyd.

Gwyddom na fedr ein cyrff ni ddim byw heb fwyd a diod, ond gwyddom hefyd, O! Arglwydd, na fedr ein heneidiau ni ddim byw chwaith heb faeth ysbrydol. Cydnabyddwn mai ein tuedd yw anghofio bod gennym ni anghenion ysbrydol ac mai ti sy'n eu cynnal. Er cymaint yw ein hangen ni am fara beunyddiol, arwain ni i weld ein hangen am Iesu Grist, 'Bara'r Bywyd':

'A boed ein llais o hyd, a'n llef
Am gael o fara pur y nef.'

Arwain ni fel pobl i sylweddoli mor wir yw geiriau'r emyn:

'Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,
D'efengyl a'i diwalla'n llwyr,
Nid digon popeth hebot ti:
Bara ein bywyd, cynnal ni.'

Diolchwn o waelod calon am efengyl sy'n ein cynnal ynghanol amrywiol brofiadau bywyd, ac yn arbennig am y ffydd sy'n ein cynnal fel pobl ar daith bywyd.

'Rwy'n gweled bob dydd
Mai gwerthfawr yw ffydd;
Pan elwy' i borth angau
Fy angor i fydd:
Mwy gwerthfawr im yw
Na chyfoeth Periw;
Mwy diogel i'm cynnal
Ddydd dial ein Duw.'

Gofynnwn i ti, y cynhaliwr mawr, dderbyn ein diolch am bob cynhaliaeth ar gyfer corff ac enaid, yn enw Iesu Grist dy Fab.
Amen.

Eifion Jones